# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 7 Chwefror 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 118(v3)

### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbynniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

### 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

### 5 Cynnig Comisiwn y Cynulliad: Ymgynghori ynghylch Diwygio'r Cynulliad

(30 munud)

**NDM6646** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad.

2. Yn cymeradwyo penderfyniad Comisiwn y Cynulliad i ymgynghori ynghylch cynigion y Panel a diwygiadau eraill yn ymwneud ag etholiadau, yr etholfraint a threfniadau mewnol y gellir eu rhoi ar waith o ganlyniad i Ddeddf Cymru 2017.

Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad - Senedd sy'n Gweithio i Gymru

Deddf Cymru 2017 (Saesneg yn unig)

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Bil chwarae cynhwysol

(30 munud)

**NDM6537 Vikki Howells (Cwm Cynon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil chwarae cynhwysol.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai gwella cyfleoedd chwarae cynhwysol drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol a fyddai'n golygu bod rhaid iddynt ddarparu offer chwarae sy'n diwallu anghenion plant ag anableddau.

## 7 Dadl Plaid Cymru - Ffordd liniaru arfaethedig yr M4

(60 munud)

**NDM6647 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn penderfynu na ddylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ariannu ffordd liniaru arfaethedig yr M4 heb bleidlais ystyrlon ar gynnig o sylwedd yn y Cynulliad yn dilyn casgliad yr ymchwiliad cyhoeddus presennol.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1. Julie James (Gorllewin Abertawe)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod bod ymchwiliad cyhoeddus gan arolygwyr annibynnol i brosiect coridor yr M4 o amgylch Casnewydd yn parhau i fynd rhagddo ac ni ddylid gwneud unrhyw beth i amharu ar ganlyniad yr ymchwiliad, adroddiad yr archwilwyr neu'r broses statudol.

## 8 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig – Diwygio Etholiadol y Cynulliad

(60 munud)

**NDM6645** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, 'Senedd sy'n gweithio i Gymru'.

2. Yn credu:

a) ar hyn o bryd, na ddylai fod unrhyw gynnydd yn nifer aelodau etholedig y Cynulliad; a

b) bod yn rhaid i etholwyr nodi eu caniatâd ar gyfer unrhyw gynnydd yn nifer yr aelodau etholedig yn y dyfodol drwy refferendwm.

Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad – Senedd sy'n Gweithio i Gymru

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1.

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6648** [Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)]

Rôl ysbytai cymunedol yng ngofal iechyd yn y 21ain ganrif

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Chwefror 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 31/01/2018 i'w hateb ar 07/02/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

1 OAQ51719

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth ar gyfer chwaraeon proffesiynol yn ne-ddwyrain Cymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

2 OAQ51722

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Llywodraeth Cymru i hyrwyddo teithio llesol yng Nghwm Cynon?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

3 OAQ51723 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am bwysigrwydd hybu enwau lleoedd cynhenid i dwristiaeth?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OAQ51702

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu entrepreneuriaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Leanne Wood** *Rhondda*

5 OAQ51711

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyfarnu'r fasnachfraint rheilffyrdd nesaf?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

6 OAQ51703

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn trafnidiaeth yn Islwyn?

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OAQ51713 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cynnal ynglŷn â buddsoddiad newydd mewn pwyntiau gwefru cerbydau trydan?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

8 OAQ51704

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ddenu mwy o dwristiaid i Gymru yn y pumed Cynulliad?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

9 OAQ51707

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu sut y mae polisïau economaidd Llywodraeth Cymru yn gwella ffyniant economaidd Gorllewin De Cymru?

**Lee Waters** *Llanelli*

10 OAQ51718

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gyllideb o £1.5 miliwn a ddyrannwyd i gefnogi'r economi sylfaenol?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

11 OAQ51699 **Tynnwyd yn ôl**

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd yn ne-ddwyrain Cymru?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

12 OAQ51708

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi porthladdoedd Llywodraeth Cymru?

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

13 OAQ51712 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddileu tollau Pont Cleddau?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

14 OAQ51697

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Preseli Sir Benfro dros y 12 mis nesaf?

**Leanne Wood** *Rhondda*

15 OAQ51710

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella llwybrau seiclo a cherdded yn y Rhondda?

## Cwnsler Cyffredinol

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

1 OAQ51706

Yn dilyn y gwrandawiad diweddar yn yr Uchel Lys, pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i baratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru i unioni'r diffyg gweithredu anghyfreithlon ar lygredd aer?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

2 OAQ51696

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r arholiad cymhwyso arfaethedig i gyfreithwyr a'i oblygiadau ar gyfer y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

3 OAQ51701

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag erlyn am beidio â thalu'r dreth gyngor?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

4 OAQ51721 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru ynglŷn â data personol?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

5 OAQ51717

Pa sylwadau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU ynghylch gallu pobl sy'n dioddef troseddau i gael mynediad at wasanaethau cyfreithiol?

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OAQ51714 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol amlinellu faint o arian sy'n cael ei wario gan Lywodraeth Cymru ar achosion llys sy'n ymwneud â llygredd awyr?

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OAQ51715 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A yw'r Cwnsler Cyffredinol wedi cael trafodaethau gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron ynglŷn ag adolygiad o achosion treisio yng Nghymru?

**David Rees** *Aberafan*

8 OAQ51727

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion y gyfraith mewn gwledydd datganoledig yn y DU am y Bil parhad sy'n cael ei ddwyn ymlaen gan Lywodraeth Cymru?

**Lee Waters** *Llanelli*

9 OAQ51729

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith awtomeiddio ar y sector gwasanaethau cyfreithiol?